

CYNGOR CYMDEITHAS BODFFORDD COMMUNITY COUNCIL

COFNODION CYFARFOD NOS FAWRTH 19ed IONAWR 2021

PRESENNOL:

Dim Cyfarfod wyneb yn wyneb oherwydd Coronafeirws. (Y Clerc mewn cysylltiad a'r Cadeirydd a'r Cynghorwyr trwy ebost neu ffon.)

YMDDIHEURIADAU:

CYNGHORWYR DATGAN DIDDORDEB.

CAEL COFNODION 15ed RHAGFYR 2020 YN GYWIR.

I'w sganio'n gyflum pan fydd y cyfarfodydd yn ailgychwyn.

MATERION YN CODI O'R COFNODION.

DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF.

1. Cais llawn i godi anecs, adeilad storfa offer Amaethyddol gyda gwelliant i'r mynedfa yn:-
Tan Rallt, Llandrygarn.
Dim gwrthwynebiad. Cynnig Cyng J Evans, eilio D T Roberts.

PENDERFYNIADAU.

2. Dim.

GOHEBIAETH (CYNGOR SIR YNYS MON)

3. CP/Cynorthwydd Gweinyddol / Swyddog Adnoddau. Ella C Jones. Praeseptau Cynghorau Cymuned / Tref 2021/22. Band D 426.65.
Awgrymiad gan y Clerc nad oes angen cynyddiad am 2021 / 22.
Cafwyd ymateb gan rhan fwyaf o'r Cynghorwyr.
Gyda balans o gwmpas £7,200.00 mewn llaw ar ddiwedd blwyddyn Mawrth 2020. Nid oes angen gwneud dim byd mwyaf. Mae ychydig i'w wneud ar ffens y Cae Chwarae ond ni fydd cost fawr. Bydd angen talu am dorri y coed yn y Fynwent Gymunedol, ond cost torri'r fynwent yn aros fel ac y mae.
Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng H G Owen. i gadw fel y mae am 2021/22 ar £11.000
Cyng D T Roberts yn gofyn i rhoi adolygu cyflog y Clerc a'r agenda nesaf.
4. Gwrthlif dros dro yr A55. Gethin Jones.
Dechrau Caergybi 28.12.20. Rhwng cyffyrdd 2 - 4 ar gyfer y cyfnod pontio a'r UE.
Gwybodaeth Anne Jones 0300 0625478 / 07967692791.

GOHEBIAETH (ARALL)

5. Un Llais Cymru. Tracy Gilmartin-Ward
Diwrnod gweithwyr y GIG, gofal Cymdeithiasol a Rheng flaen 5ed Gorffennaf 2021.
Diwrnod unigryw i ddathlu a choffau'r sawl sydd yn gweithio bedair awr ar hugain y dydd saith niwrnod yr wythnos heb feddwl dim am eu diogelwch eu hunain.
6. BDO Archwiliad Allanol.
Cymeradwyo adroddiad materion yn codi a derbyn yr awdit ddaeth i ben 31ain Mawrth 2020.
Y Cyngor heb nodi'r cyfeirnod cofnodion ar gyfer cymeradwyo'r datganiad cyfrifon a'r datganiad Llywodraethiant blynyddol.
Mae'r Cyngor wedi cadarnhau Mai 3ydd oedd y cyfeirnod y cofnod oedd yn nodi'r cymeradwyo.
Mae rhaid i'r cyngor sicrhau fod pob blwch perthnasol, wedi'i gwblhau'n llwyr.

Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i sylw.
Cymeradwyo yr Awdit Cynnig Cyng E Williams, eilio Cyng R M Roberts. Nid oedd unrhyw wrthwynebiad.

7. Calonnau Cymru. Kimberley Lloyd Owen.
Grant i gynghorau Cymuned a Thref.
£200 i gael tuag at Diffibrilydd. Yn anffodus ni ellir Bodffordd ei hawlio y gwaith wedi ei wneud. Cadw mewn golwg efalli fydd rhywun ei angen. Derbyn.
8. Clercod a Cynghorau Uniongyrchol. Cylchgrawn. Derbyn.
9. Un Llais Cymru. Tracey Gilmartin-Ward.
Ar frys / Ail drefnu isetholiadau Llywodraeth Leol.
1af Mawrth 2021 - 6ed Mai 2021. Mae hyn yn golygu na fydd trefnu isetholiadau ar gyfer mis Chwefror yn bosibl mwyach.
Ymholiadau: Etholiadau.elections@gov.wales.
Nid oedd llawer o sylw. Derbyn ai adael.

RHODDION

10. Elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Apel Argyfwng. Gadael hyd Mawrth 2021.
11. Radio Ysbyty Gwynedd. Gadael hyd Mawrth 2021.

PLWYFOL

12. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Dylan Evans Mon Grass Cutting Service yn barod i dorri`r fynwent am yr un bris eto eleni £630.00.
Derbyniodd y Clerc y pris ar Cyngor yn cefnogi. (Unfrydol)
13. Mynwent Gymunedol Bodffordd.
Amcangyfrif i symud ymaith cymaint ag sydd bosib o eiddew o`r brif fur a`r postyn giat i`r chwith o`r fynedfa / Maes Parcio.
Wrth dynnu yr eiddew mae posibilrwydd bydd y cerrig yn dod yn rhydd.
Symud ymaith mwsog a`r dail o`r Maes Parcio.
Symud ymaith yr eiddew i gyd ar hyd y wal isel ochr dde i`r Maes Parcio.
Y gwastraff i`w symud ymaith o`r safle ar gwblhad.
Cyfanswm £120.00
Y Cyngor yn derbyn yr amcangyfrif (os daw y cerrig yn rhydd nid ydyw yn broblam)
Cynig Cyng J Evans, eilio Cyng R M Roberts.
14. Gamfa Afallon i BrynMawr. Arwel G Evans.
Stepau wedi trwsio gan y perchennog, cyflawn ar ddwy ochr y gamfa yn flaenorol.
Dan adran 147ZA Deddf Priffyrdd 1980 pwer i wneud cytundeb hefo`r Tirfeddiannwr gofynwyd i`r Perchennog i gael rhoi giat yn lle`r gamfa ond nid oedd yn fodlon.
Fel Awdurdod Priffyrdd nid oes ganddynt bwer i orfodi rhoi giat yn lle gamfa.
Mae`r gamfa wedi eu hawdurdodi pan gafodd y gorchymyn gwyro 1981 ei wneud ac nid ydyw yn bosib newid y gorchymyn rwan.
Cyngor ddim yn hapus ar ymateb. Tybed fydd y perchennog yn gyfrifol os bydd pobl mewn oed yn disgyn wrth ei defnyddio fel yn y gorffennol. Dylai y Cyngor Sir wneud gwell gorchymyn yn y dechrau.
Nid yw`r Cyngor yn ei dderbyn ond nid ydyw bosib gwneud dim.

Er Gwybodaeth!!!!!!!!!!!!!!

Mae newid deddfwriaethol wedi bod ers 2000 sy`n golygu nad ydi camfeydd yn cael eu hawdurdodi mewn gorchymynion gwyro a chreu llwybrau ddim mwy (dim ond giatiau sy`n bosib eu hawdurdodi) nid oes dim pellach ellir ei wneud yn yr achos hwn.

15. Arolwg Cyflymder Tramwy Trwy Llynfaes. Daniel M Jones.

Gofynnodd Heddlu Gogledd Cymru i ail arolygu'r safle gan ei bod wedi derbyn cwyn bod yr arolwg cyntaf wedi'i gwblhau pan oedd adnewyddiadau ar gyfer Neuadd Bentref yn mynd ymlaen, gan ymyrryd felly chanlyniadau'r arolwg.

Mae un peth yn amlwg na perchennog Treflys sydd yn anfodlon o'r canlyniad cyntaf.

Nid oedd gwaith yn cael ei wneud yn y Neuadd pan oedd yr arolwg gyntaf yn cymryd lle. Ni ellir y Cyngor dderbyn hyn.

16. Craigle, Glanrafon. Alan Jones.

Y garafan wedi cael ei lleoli mewn eiddo preifat. Ochr i fewn i'r linellau gwyn. Nid ellir gwneud dim yw symud.

17. Asesiad Rheolaeth Risg / Cynllun Rheolaeth.

Preseb. Cyflog Clerc. Cofnod Ariannol. TAW. Siecs. Dychweliad Flynyddol. Cofnodion / Rhaglen.

Hysbysford. Lleoliad Cyfarfodydd. Cofnodion y Cyngor (Papur)

Derbyniad unfrydol. Gwreiddiol ar ffeil bapur.

MATERION ARIANNOL:

18. Cyfrif Rhedegol £13,868.17. (Preseb 3. £3,666.67. Agor Bedd Jean Parry £400.00 Gosod Carreg Nellie Owen £100.00.

TALIADAU:

19. Clerc £220.83. Swyddfa Archwilio Cymru (Awdit) £262.50.

Er nas oes cyfarfod yn bodoli mae yn rhaid dan rheol dahu y dyledion i gyd.

